Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Rhagfyr 2025

"Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar ganlyniadau arolwg Mehefin 2025 y DU a ryddhawyd ganol mis Rhagfyr, a sut y gall niferoedd da byw effeithio ar y cyflenwad yn y dyfodol."

**Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi & Mewnwelediad Busnes**



## GWARTHEG

Mae data gan Defra yn dangos bod cyfanswm y gwartheg a'r lloi yn y DU wedi gostwng ychydig ym mis Mehefin 2025, o 9.41 miliwn i **9.29 miliwn pen** - gostyngiad o 1.3% (120,000 pen) o'i gymharu â 2024. Mae hyn yn parhau â'r dirywiad parhaus ym muchedd y DU. Fe wnaeth y fuches fridio gyffredinol* (cig eidion a llaeth) wedi lleihau o 1% i 3.1 miliwn pen, sydd wedi'i sbarduno gan ostyngiad o 4% yn y **fuches fridio cig** eidion i 1.3 miliwn pen. Dyma'r fuches fridio leiaf ar gofnod erbyn hyn, ac mae 18% yn is nag yn 2015. Yn y cyfamser, fe wnaeth y **fuches bridio llaeth** gofnodi gynnydd o bron i 1% flwyddyn ar flwyddyn i 1.9 miliwn pen, gan ddod â lefelau tebyg i'r rhai a welwyd yn 2020.


Er gwaethaf cynnydd bach yn y fuches bridio llaeth, cofnododd y mwyafrif o'r categorïau gwartheg ostyngiadau blwyddyn ar flwyddyn. Cofnododd gwartheg sy'n llai nag 1 mlwydd oed (gwrywod a benywod) gynnydd bach blwyddyn ar flwyddyn, fodd bynnag, gyda'r holl gategorïau eraill yn cofnodi gostyngiadau, mae hyn yn awgrymu efallai na fydd y lefelau presennol yn gwrthbwyso'r dirywiad yn y fuches yn y DU – ac yn benodol, y fuches bridio cig eidion. Fe wnaeth gwartheg rhwng 1 a 2 mlwydd oed brofi gostyngiad o 2%, gyda'r categorïau cig eidion a llaeth yn profi gostyngiadau o 3% ac 1%, yn y drefn honno. Roedd gwartheg llai nag 1 oed yn fwy sefydlog ar y flwyddyn, ac fe wnaethant gofnodi cynnydd o 0.2%. Gostyngodd poblogaeth gwartheg gwrywaidd 1% yn gyffredinol, gyda'r rhai dros 1 oed yn gostwng 4% ar y flwyddyn - er y gallai cynnydd o 2% mewn gwrywod llai nag 1 oed roi rhywfaint o gefnogaeth i niferoedd lladd yn y blynyddoedd diweddarach. Mae'r data hwn yn awgrymu gostyngiad posibl mewn cyflenwadau cig eidion a chyfeintiau cynhyrchu yn ystod y tymor byr i ganolig.

**diffinnir buwch fridio yng nghyd-destun y datganiad hwn fel buwch sydd wedi lloia.*

## DEFAID

Mae data Defra yn dangos bod cyfanswm y boblogaeth ddefaid ac ŵyn yn y DU wedi gostwng 1.7% i **30.5 miliwn pen**. Mae'r gostyngiad o 533,100 pen ar y flwyddyn flaenorol yn nodi'r maint diadell leiaf ar gofnod ers i'r arolwg Mehefin ddechrau cofnodi ym 1984. Sbardunwyd y dirywiad hwn gan ostyngiadau ar draws y rhan fwyaf o gategorïau defaid. Gostyngodd maint cyffredinol y **ddiadell fridio fenywaidd** o 0.7% (neu 102,000 miliwn pen) i 14.8 miliwn pen, fodd bynnag fe wnaeth y rhai y bwriadwyd ar gyfer bridio tro cyntaf gofnodi cynnydd nodedig o 6% ar y flwyddyn. Mae hyn yn newyddion calonogol i'r sector, a gallai nodi mwy o anifeiliaid cyfnewid yn dod i mewn i'r cylch bridio.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y **cnwd ŵyn** (o dan flwydd oed) wedi gostwng 3% i sefyll ar 14.8 miliwn pen - y cnwd ŵyn lleiaf a gofnodwyd ers i'r arolwg ddechrau. Mae'r gostyngiad hwn eisoes wedi effeithio ar argaeledd y cnwd cig oen presennol (Mai 2025 – Ebrill 2026) ar gyfer lladd, gyda'r lefelau trwybwn (Mai-Tach) 2% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Gall cynnydd yn nifer y mamogiaid sy'n bridio am y tro cyntaf gefnogi cnwd ŵyn mwy y flwyddyn nesaf, ond bydd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar hyn.




## MOCH

Ym mis Mehefin 2025, roedd poblogaeth moch y DU yn **4.7 miliwn pen** - cynnydd o 0.5% ers 2024. Sbardunwyd y twf hwn yn llwyr gan gynnydd o bron i 37,000 pen yn nifer y moch pesgi, gan ddod â'u cyfanswm i 4.3 miliwn pen. Fodd bynnag, gostyngodd y **fuches fridio benywaidd** o 3% i 316,400 pen.

**CANLYNIADAU AROLWG MEHEFIN 2025 AR GYFER CYMRU:**

> Gwartheg a lloi = 1.1 miliwn pen (-1% ar y flwyddyn)
> Defaid ac ŵyn = 8.8 miliwn pen (+1% ar y flwyddyn)
> Moch = 28,050 pen (+1% ar y flwyddyn)

*Ffynhonnell: 'Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth, Mehefin 2025'*

### *Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?*

*Mae data'r arolwg diweddaraf yn dangos tynhau parhaus ar draws buches a diadell cig coch y DU, gyda niferoedd bridio is a lefelau stoc ifanc is yn arwydd o gyflenwad domestig cyfyngedig o'n blaenau. Mae argaeledd cig eidion yn debygol o ddod o dan bwysau wrth i'r fuches bridio cig eidion gyrraedd isafbwyntiau newydd, tra bod cnwd cig oen llai a llai o ddefaid yn dangos trwybwn yr un mor gyfyngedig. Er bod cynnydd mewn gwartheg godro a mamogiaid sy'n bridio am y tro cyntaf yn cynnig rhywfaint o botensial tymor hwy, disgwylir i unrhyw welliant yn y cyflenwad fod yn raddol.*

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 13 Rhagfyr

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **651.5c/kg**. Roedd hyn:


- - 7.5c ar yr wythnos flaenorol,
- 108.7c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn:

- Heffrod: 646.8c/kg (- 6.6c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 634.5c/kg (- 5.2c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 491.5c/kg (- 12.1c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Tachwedd 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 237,200 pen – i lawr 4% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 168,700 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.
    - ➢ *bustych -5%, heffrod -5%, a theirw ifanc -2%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 346.8kg (+9kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 61,800 pen - i lawr 3% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 13 Rhagfyr

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **700.0c/kg**. Roedd hyn:

- - 13.5c ar yr wythnos flaenorol
- + 10.1c o'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt,
- 111.8c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 588.2c/kg).


Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 42,900 pen. Roedd hyn:


- + 12.5% ar yr wythnos flaenorol
- - 16% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

**Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.*

### Trwybwn – Tachwedd 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 974,500 pen – i lawr 14% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 886,300 pen – i lawr 13% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 20.4kg (-0.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid & hyrddod difa = 88,200 pen – i lawr 15% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 13 Rhagfyr

Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **198.0c/kg**. Roedd hyn:

- - 0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- - 8.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 15.6c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 182.4c/kg).

**Noder: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.*

### Trwybwn – Tachwedd 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 983,800 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 867,000 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 92.5kg (+2.4kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch & baedd = 16,900 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.

